



# Ein Cyfarwyddwr Strategaeth, Cyfathrebu ac Effaith

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol



# Cynnwys

|                                                   |    |
|---------------------------------------------------|----|
| Neges gan y Cadeirydd                             | 3  |
| Neges gan y Prif Weithredwr                       | 5  |
| Amdanom ni                                        | 6  |
| Ein pwrpas                                        | 8  |
| Ein fframwaith strategol                          | 8  |
| Ein hegwyddorion                                  | 9  |
| Ein hamcanion ymarferol                           | 10 |
| Ein blwyddyn mewn rhifau                          | 11 |
| Arian Loteri Genedlaethol a ddyfarnwyd yn 2020-21 | 13 |
| Ein llywodraethiant                               | 14 |
| Ein Uwch Dîm Rheoli                               | 15 |
| Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei gyflawni yn 2021/22  | 16 |
| Ein strategaeth ariannu                           | 17 |
| Y rôl                                             | 19 |
| Eich profiad                                      | 20 |
| Sut i ymgeisio                                    | 20 |

**“Mae Cronfa  
Gymunedol y Loteri  
Genedlaethol wedi  
trawsnewid ein  
prosiect a’n cymuned  
yn hollol.”**

Melanie,  
Rheolwr, The Senior Centre, De  
Glasgow

# Neges gan y Cadeirydd



**Blondel Cluff CBE**

Cadeirydd

“Mae’r ariannu hwn, sydd wedi torri pob record, nid yn unig wedi rhoi rhaffau achub i sawl un ond hefyd wedi creu platfform y gallwn ni ail-adeiladu arno’n well.”

Fel Cadeirydd gweddol newydd, rwy’n gallu gweld pethau o bersbectif newydd. O’r fan ffafriol hon, rwy’n gweld cyflawniad aruthrol y Gronfa wrth fodloni anghenion cymunedau ledled y DU yn ystod argyfwng byd-eang. Gwelais hefyd bŵer anhygoel ac unigryw cymunedau. Ar adeg pan oedd rhyngweithiad personol wedi’i gyfyngu er lles iechyd a diogelwch y cyhoedd, gwelsom nifer o sefydliadau cymunedol yn cefnogi’r bobl fwyaf bregus, a hynny’n llwyddiannus. Rwy’n falch o gefnogaeth y Gronfa wrth wneud hyn, gan ddyfarnu grantiau’r Loteri Genedlaethol i amrywiaeth o elusennau a grwpiau cymunedol ledled y DU, gan gydweithio â llywodraethau lleol, gweinyddiaethau datganoledig a’r llywodraeth ganolog.

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom ddyfarnu £1 biliwn o gyllid (gan gynnwys anrhydeddu ymrwymiadau oedd eisoes yn bodoli) i dros 20,000 o sefydliadau. Roedd hwn yn gynydd 21% mewn taliadau a wnaed o gymharu â’r flwyddyn flaenorol.**

Cafodd hyn oll ei gyflawni er gwaethaf newid yn ein model gweithio, a welodd, fel

sawl un arall ein staff yn gweithio’n ddi-dor o gartref. Mae’r ariannu hwn, sydd wedi torri pob record, nid yn unig yn rhoi rhaffau achub i sawl un ond hefyd wedi creu platfform y gallwn ni ail-adeiladu arno’n well.

Ar ôl ymweliad diweddar â The Way yn Wolverhampton, un o 14 o brosiectau HeadStart yr ydym wedi buddsoddi dros £68.5 miliwn i gefnogi iechyd meddwl pobl ifanc dros y pum mlynedd diwethaf, rwy’n cydnabod bod llawer o waith y Gronfa wedi cael effaith enfawr ar wytnwch y genedl yn ystod yr adeg hollbwysig hon, gan gynyddu’r potensial am adferiad cyflym. Nodais hefyd y gwaith yr ydym yn ei ddatblygu mewn cydweithrediad â’r sector preifat, yr wyf i’n bwriadu ei ddatblygu ymhellach ar y cyd â’n gwaith ar draws y llywodraeth. Mae’n amlwg hefyd fod gan bob un o’r pedair gwlad rôl arbennig i’w chwarae yn adferiad y DU, gyda Gogledd Iwerddon, Yr Alban Cymru a Lloegr i gyd yn gartrefi i gymunedau y mae eu dyfeisgarwch ac arloesedd, pan fydd y rhain yn cael eu rhannu, yn gallu cefnogi eraill mor hawdd ledled y DU. Rwyf wedi ymgymryd â rôl Cadeirydd Pwyllgor Ariannu’r DU a bydd ei



waith yn parhau i adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol y fath gydweithrediad.

Er bod rhaid i ni gofio bob amser fod y C yn ein henw yn golygu ‘Cymuned’ mae’n eglur bod gan y Gronfa rôl hanfodol i’w chwarae wrth gefnogi’r gymdeithas sifil, nid yn unig yn ariannol, ond hefyd wrth gynnull a chydgrynhoi ei holl gydrannau amrywiol, ac ychwanegu llais cryf, anwleidyddol sy’n cael ei glywed â pharodrwydd. Mae hyn yn hynod bwysig i’r DU o ystyried gwerth amcangyfrif gwerth effaith gymdeithasol o £200 biliwn a gynhyrchwyd gan y sector bob blwyddyn.\*

Ar ôl treulio dros chwe blynedd fel un o gadeiryddion rhanbarthaol Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, sy’n rhoi ymdeimlad cryf o berchnogaeth gymunedol treftadaeth anhygoel y DU, rwy’n awyddus i sicrhau bod teulu dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol yn cydweithio’n agosach. Rwy’n gobeithio y bydd rhyngweithiad gronynnaidd unigryw’r Gronfa ym mhob un o’r 650 o etholaethau yn y DU yn cael ei ddefnyddio gan bob aelod o deulu’r loteri i gefnogi mandadau ei gilydd.

Dros y flwyddyn nesaf, mae nifer o gyfleoedd cyffrous gennym i ddefnyddio ein cyllid, gwybodaeth, profiad a

rhwydweithiau eang, o dan nawdd brand y Loteri Genedlaethol (un o frandiau mwyaf blaenllaw’r DU) i fynd i’r afael â rhai o’r materion mwyaf anodd y mae cyhoedd y DU erioed wedi’u hwynebu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dyfarnu £59 miliwn i brosiectau gydag elfennau amgylcheddol trwy 742 o grantiau diolch i gyllid gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Gwnaethom gydweithio ag eraill i ddod â hyd yn oed mwy o arian i’r achos, gyda’n buddsoddiad mewn prosiectau amgylcheddol yn codi i £85 miliwn trwy 1,476 o grantiau lle’r ydym ni’n gweithio ag eraill. Mae ein Cronfa Gweithredu Hinsawdd £100 miliwn wrth graidd ein Strategaeth Amgylcheddol dros y 10 mlynedd nesaf. Gwnaethom hwyluso dathliadau Jiwbilî Platinwm Ei Mawrhydi ledled y DU ac rydyn ni’n defnyddio ein pŵer cynnull i ddarparu cefnogaeth gatalytig i sawl elusen leol wrth iddyn nhw a’r cymunedau y maen nhw’n eu gwasanaethu adfer.

Rwy’n awyddus i sicrhau bod cyfansoddiad y Gronfa’n adlewyrchu’r bobl yr ydym ni’n eu gwasanaethu, felly rwy’n hynod ddiolchgar am y cyfraniad pwysig a wnaed gan ein panel ymgynghori Pobl Ifanc yn Arwain yr

ydym bellach yn bwriadu ei gyflwyno yng Ngogledd Iwerddon a’r Alban.

Mae ariannu’n cynrychioli dros chwarter o’r holl gyllid a gyhoeddwyd sy’n ymwneud ag ieuenctid yn y DU. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cododd y cyllid i blant a phobl ifanc dros £200 miliwn ar gyfer prosiectau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol a dros £300 miliwn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys 7,000 o grantiau, sy’n darparu cyfleoedd sydd wir eu hangen i blant a phobl ifanc ledled y DU.

Mae ein gwaith er budd pawb ac fe fydd yn parhau i gael ei ddirprwyo i gyrraedd y cymunedau hynny sydd wedi’u heffeithio fwyaf gan y pandemig, i sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael tu ôl. Rwy’n hyderus, er poen a dioddef y flwyddyn ddiwethaf, trwy weithio gyda’n gilydd, byddwn ni gyd yn gwneud yn well.

**Blondel Cluff CBE, Cadeirydd**

\*Law Family Commission on Civil Society: Andy Haldane, Y Trydydd Sector a’r Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol

# Neges gan y Prif Weithredwr



David Knott  
Prif Weithredwr

“Mae cefnogaeth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ynghyd â chyllid argyfwng gan lywodraethau wedi helpu cynyddu ysbryd cymunedol.”

**“A oes gennych chi'r syniadau a'r uchelgais i lywio dyfodol cyllidwr cymunedol mwyaf y DU?”**

Cefais fy mhenodi fel Prif Weithredwr Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ym mis Hydref 2021. Bob dydd, mae'n bleser gweld egni a dyfeisgarwch y cymunedau yr ydym ni'n eu gwasanaethu ac mae'n ffrind i arwain sefydliad llawn angerdd, egni ac arbenigedd. Mae'r angen am ein nod i gefnogi pobl a chymunedau i lwyddo a ffynnu yn fwy nag erioed.

Hoffwn ddiolch i chi am ymgeisio ar gyfer y rôl newydd hon, sef Cyfarwyddwr Strategaeth, Cyfathrebu ac Effaith Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Rwy'n gobeithio, trwy ddarllen hwn, y byddwch chi'n rhannu'r cyffro o ran y posibilrwydd o'r hyn y gallwn ei gyflawni ar adeg hanfodol. Mae wir yn gyfle unigryw.

Ni yw cyllidwr cymunedol mwyaf y DU. Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi cefnogi mwy na 72,000 o brosiectau cymunedol trwy £3.4 biliwn o grantiau. Rydym ni yma er budd pawb, gan ddod â dull lleol i gyrraedd pobl a chymunedau. Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau sgwrs adnewyddu strategol - [Rhoi Cymunedau'n Gyntaf](#) - a fydd llywio ein pwrpas ar gyfer

y blynyddoedd sydd i ddod hyd at 2030. Yn syml, hoffem wneud y gwahaniaeth mwyaf y gallwn. Wrth wneud hyn, rydym ni'n uchelgeisiol i fod yn berthnasol, cysylltiedig ac yn gydweithredol, i helpu rhyddhau potensial cymunedau wrth i ni addasu i heriau newydd.

Mae hon yn rôl a chyfarwyddiaeth newydd, a bydd gennych chi'r cyfle i lywio ein strategaeth a sut mae eich timau'n arwain ac yn galluogi'r Gronfa i lwyddo. Rwy'n edrych ymlaen at eich syniadau a'ch profiad. Mae'n rôl allweddol sydd wrth wraidd ein huchelgeisiau, gyda'ch timau'n arwain ein hariannu DU-gyfan ac yn arwain arferion ariannu ehangach gan weithio â chyfarwyddiaeth Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Dod â phopeth ynghyd yw'r ffordd yr ydym ni'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu i ddangos ein gwahaniaeth a gallu uwch i gael ein harwain gan effaith yn ein dull.

Mae hon yn rôl anhygoel mewn sefydliad arbennig ar adeg hollbwysig. Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n rhannu'r angerdd sydd gennym dros roi cymunedau'n gyntaf. Rwy'n edrych ymlaen at eich cais!

**David Knott, Prif Weithredwr**

## Amdanom ni

Ein pwrpas craidd yw cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu.

Mae cefnogi cymunedau ledled y DU nawr yn bwysicach nag erioed wrth i bobl a sefydliadau geisio goroesi, adfer a chefnogi eraill wrth i ni ddod allan o bandemig COVID-19.



Lagmore Youth Project



Rydym ni'n un o 12 o ddosbarthwyr cyllid y Loteri Genedlaethol. Rydym ni'n gweithio'n agos â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a deiliad trwydded Y Loteri Genedlaethol, sef Camelot ar hyn o bryd, i ddyfarnu cyllid y Loteri Genedlaethol ledled y DU.

Bob blwyddyn, fel un o'r dosbarthwyr mwyaf, rydym ni'n dyfarnu tua £600 miliwn o gyllid a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Y llynedd, gwnaethom ddyfarnu dros

£752 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol i gymunedau, sy'n gyfystyr â 20,000 o grantiau.

**Mae'r arian rydym ni'n ei wobrwyo i bawb, gan alluogi pobl a chymunedau i ffynnu**

Rydym ni'n gweithio'n agos â theulu'r Loteri Genedlaethol, dosbarthwyr eraill a gweithredwr y gemau i rannu straeon ysbrydoledig sy'n dangos effaith cyllid y Loteri Genedlaethol ledled y DU. Mae hon yn adeg hollbwysig i barhau i adrodd y stori honno, yn bennaf oherwydd mae cyllid y Loteri Genedlaethol yn parhau i fod yn adnodd hanfodol i gymunedau wrth iddyn nhw adfer o'r argyfwng coronafeirws.

Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am lywio a gosod ein strategaeth hirdymor a'n polisiau allweddol. Maen nhw hefyd yn sicrhau fel sefydliad mawr, mae pob punt yn cael ei wario yn y ffordd orau posibl.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli o wyth cyfarwyddwr yn gyfrifol am gynnal y strategaeth a'r polisiau a osodwyd gan

y Bwrdd. Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Atebol i'r Senedd hefyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol.

**Mae ein gwaith wedi'i rannu i bum portffolio, sy'n cynnwys ariannu ar draws Lloegr, Gogledd Iwerddon, Cymru, Yr Alban a'r DU.**

Mae gan bob un o'r portffolios hyn bwyllgor ei hun o swyddogion anweithredol sy'n gwneud penderfyniadau ariannu mawr trwy dair ffrwd ariannu: grantiau bach o dan £10,000, grantiau mwy dros £10,000 a grantiau partneriaeth sy'n cefnogi sefydliadau i gydweithredu ac arloesi.

Gwnaethom gyhoeddi ein [Cynllun Corfforaethol, 2022-2024](#) yn ddiweddar, lle byddwch chi'n dysgu rhagor am ein blaenoriaethau.







Clwb Bocsio Monkstown

## **Ein pwrpas**

Rydym ni'n cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu.

## **Ein fframwaith strategol**

Rydym ni i bawb ac mae ein hariannu ar agor i bob cymuned beth bynnag eu pwynt cychwyn.

Mae pobl yn deall yr hyn sydd ei angen yn eu cymunedau'n well na neb.

Rydym ni'n dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei gyfrannu, a'r potensial yn eu syniad.


Rydym ni'n gwranddo, cydweithredu ac ariannu'r pethau sy'n bwysig i gymunedau.

Dyna pam rydym ni'n falch i ddyfarnu arian a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ledled y DU.



# Ein hegwyddorion

Mae'r hyn a wnawn a sut rydym ni'n gweithredu fel sefydliad yn seiliedig ar ein hegwyddorion.



# Ein hamcanion yn ymarferol

Portglenone Enterprise Group

## Amcan 1

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl a chymunedau ledled y DU

## Amcan 2

Mae ein hariannu'n rhagweld ac yn catalyddu newid ehangach i sicrhau bod cymunedau ledled y DU, a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, yn llwyddo a ffynnu

## Amcan 3

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn werthfawr, yn ddibynadwy ac yn effeithlon



# Ein blwyddyn mewn rhifau

Mae ein hariannu'n mynd at wraidd yr hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau



**5,752**

o brosiectau'n cefnogi  
iechyd a lles



**2,282**

o brosiectau'n gwella  
addysg a sgiliau bywyd



**4,786**

o brosiectau sy'n dod â  
chymunedau ynghyd



**636**

o brosiectau cyflogaeth  
a menter



**1,106**

o sefydliadau cyngor  
wedi'u hariannu



**563**

o brosiectau  
amgylcheddol



**83% = £10,000**

o'n grantiau newydd

neu lai

Rhifau o 2020 - 2021



“Rwy’n gyffrous i weld yr hyn y byddwn ni’n ei gyflawni yn y dyfodol, ac rwy’n gobeithio bod yn ysbrydoliaeth i bobl ifanc eraill.”

Rachel, 17 oed  
Aelod, Grŵp Ymgynghorol Pobl Ifanc yn Arwain



# Arian y Loteri Genedlaethol a ddyfarnwyd yn 2020-21

**Cyfanswm**  
**£752.6m**

20,217 o grantiau

**Y DU**  
**£45.2m**

160 o grantiau

**Gogledd Iwerddon**  
**£37m**

1,199 o grantiau

**Cymru**  
**£38.1m**

921 o grantiau

**Yr Alban**  
**£76.9m**

2,258 o grantiau

**Lloegr**  
**£555.2m**

15,680 o grantiau

Mae cyfansymiau portffolio gwledydd yn cynnwys ariannu mewn partneriaeth gyda thrydydd partïon.

**£1 biliwn**

wedi'i dalu (cynnwys anrhydeddu ymrwymadau oedd yn bodoli eisoes)

# Ei n llywodraethiant

Corff cyhoeddus anll ywodraethol yw Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, a grëwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006. Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw ein Hadran nawdd ac ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig yn Yr Alban, Cymru a Gogleddlwerddon, maen nhw'n gallu rhoi Cyfarwyddiadau Polisi i ni, sy'n hysbysu ein strategaeth ariannu.

Fel cyllidwr yn y DU, mae gennym bedwar pwyllgor gwlad sy'n gwneud penderfyniadau am ein blaenoriaethau ariannu ar draws Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd lwerddon. Mae'r pwyllgorau hyn yn gweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig a'n timau staff mewn cymunedau ar draws pob rhan o'r DU i sicrhau bod ein cyllid i bawb.

Mae ein Bwrdd yn cynnwys deg aelod gan gynnwys Cadeiryddion pob pwyllgor gwlad, gyda Chadeirydd y Bwrdd yn cael ei benodi gan DCMS. [Gallwch gyfarfod â'n Bwrdd yma.](#)

Penodir ein Uwch Dîm Rheoli gan y Prif Weithredwr ac mae'n cefnogi arweinyddiaeth strategol a gweithredol y Gronfa, gyda phob un yn ymgymryd â chyfrifoldebau i sicrhau bod y Gronfa'n bodloni'r ymrwymïadau yn ein [Cynllun Corfforaethol](#).

## Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Corff cyhoeddus anadrannol, a grëwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006

## DCMS

Adran nawdd y Gronfa

## Ein Uwch Dîm Rheoli

Cynnal y strategaeth a'r polisiâu a osodwyd gan y Bwrdd

## Prif Weithredwr'

Swyddog Atebol penodedig y Gronfa

## Ein Bwrdd


Gosod ein strategaeth hirdymor a'n polisiâu

## Pwyllgorau Pedwar Gwlad

Gwneud penderfyniadau ar flaenoriaethau polisi ar draws y DU



# Ein Uwch Dîm Rheoli



Dewch i gyfarfod â'n Uwch Dîm Rheoli a darllen eu bywgraffiadau ar ein gwefan

[tnlcommunityfund.org.uk/smt](https://tnlcommunityfund.org.uk/smt)

# Yr hyn rydyn ni'n bwriadu ei gyflawni

Rydym wedi neilltuo cyllideb i ddarparu cyfanswm y costau gweithredu o fewn trothwy costau 7.75%, gyda chapasiti am fuddsoddiad ychwanegol mewn gwelliannau gwasanaeth yn seiliedig ar y dull mesur tair blynedd treigl. Mae'r targed wedi'i sefydlu ar gyllideb incwm Loteri Genedlaethol o £675 miliwn, sy'n dod o'n rhagolygon refeniw ar gyfer 2021/22 ar adeg paratoi'r gyllideb ac ystyried newidiadau gweithredu a ragwelir yn ystod y flwyddyn.

Mae'r gyllideb yn seiliedig ar ddatblygu gweithgareddau i gefnogi ein Cynllun Corfforaethol, gan barhau â'n rhaglen o newid a cheisio effeithlonrwydd, gan ein galluogi i ddod o hyd i weithgareddau buddsoddi a fydd yn cefnogi darpariaeth y Fframwaith Strategol a'u darparu.

Rydym wedi dechrau'r broses o adnewyddu ein strategaeth DU gyfan. Mae ein [Hymrwymiad i Gymunedau](#) yn egluro'n gryf yr hyn y gall pobl a'n partneriaid ei ddisgwyl gennym wrth i ni geisio rhoi cymunedau'n gyntaf.

Mae'r adnewyddiad strategol hwn am sicrhau ein bod ni'n addas ar gyfer y dyfodol. Bydd y 12 mis nesaf yn gweld darpariaeth a diwedd y broses hon gan sicrhau, fel cyllidwr gweithgarwch cymunedol mwyaf y DU, bod gennym eglurder am y ffordd yr ydym ni'n gweithio â'r bobl a'r cymunedau hynny yn y dyfodol.




African Caribbean Community Association

# Ein strategaeth ariannu

Ar gyfer ein rhaglenni ariannu Loteri Genedlaethol, ein strategaeth yw dyfarnu'r swm mwyaf o arian y gallwn ei ymrwymo'n ddiogel dros gyfnod o bum mlynedd o ystyried ein incwm disgwyledig. Gan fod nifer o'n grantiau'n talu dros sawl blwyddyn yn dilyn y dyfarniad cyntaf, mae'r strategaeth hwn yn sicrhau bod y prosiectau a gweithgareddau y mae ein grantiau'n eu cefnogi'n gallu darparu eu buddion cyn gynted â phosibl, gan sicrhau ein bod ni'n cael ein hamddiffyn rhag unrhyw newidiadau incwm.

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gennym £875 miliwn (2019/20 £1,052 miliwn) o ymrwymadau dros ben o ran grantiau a wnaed pan oedd gennym £264 miliwn (2019/20 £303 miliwn) yng Nghronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) i'w diwallu. Mae hyn yn golygu yr oeddem wedi gwneud ymrwymadau net o £611 miliwn (2019/20 £749 miliwn) yn uwch na'r adnoddau sydd gennym ar hyn o bryd. Mae hyn yn gyfystyr â thua 11 mis o incwm y Loteri Genedlaethol yn seiliedig ar ein hamcangyfrifon cyfredol





A photograph of two women standing in a garden. The woman on the left is wearing a grey patterned t-shirt and red leggings. The woman on the right is wearing a black t-shirt and patterned trousers. They are both smiling and looking towards the camera. The background shows a garden with various plants, including a large bush with white flowers on the left and a raised garden bed with green plants on the right. A brick building is visible in the background.

“Mae’r prosiect hwn  
nid yn unig yn cael  
effaith gadarnhaol ar yr  
amgylchedd yn Hackney,  
mae hefyd yn helpu lleihau  
ynysrwydd cymdeithasol ac  
yn galluogi pobl i ffynnu.”

Siobhan,  
Cydlunydd Prosiectau Cymunedol, St  
Mary’s Secret Garden



# Y rôl

Yn ddiweddar, rydym wedi lansio sgwrs adnewyddu strategol genedlaethol fawr–Rhoi Cymunedau’n Gyntaf – a fydd yn gosod strategaeth newydd hyd at 2030. Yn syml, hoffem wneud y gwahaniaeth mwyaf y gallwn. Rydym ni’n uchelgeisiol i barhau i fod yn berthnasol, cysylltiedig a chydweithredol yn ein dull, gan ryddhau’r potensial mewn cymunedau wrth i ni addasu i heriau newydd. Fel cyllidwr cenedlaethol, rydym ni’n ceisio gweithio â phwrpas cyffredin ac ysgogol a chael ein llywio’n fwy gan effaith o ran ein penderfyniadau ariannu, a’r ffordd yr ydym ni’n defnyddio ein data, gwybodaeth a mewnwleidiad i ddylanwadu ac ymgysylltu.

Rôl newydd yw hon, yn arwain cyfarwyddiaeth newydd i helpu llywio’r uchelgeisiau hyn. Bydd gennych y cyfle i lywio ffurf a swyddogaeth wrth i ni ddatblygu’r strategaeth yr ydym ni’n disgwyl ei lansio yng Ngwanwyn 2023. Byddwch chi’n adrodd yn uniongyrchol i’r Prif Weithredwr a byddwch chi’n gyfrifol am arwain gweithgareddau arbenigol y Gronfa ar draws strategaeth, cyfathrebu ac effaith ariannu:

## Strategaeth Ariannu

Mae ein hadnewyddiad strategol yn ymwneud â sut y gallwn ni wneud y gwahaniaeth mwyaf yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, gan edrych ar gwestiynau o’n themâu blaenoriaeth, ein rhaglenni a chynnyrch ariannu, i’n ffyrdd o weithio gydag eraill. Trwy ymuno nawr, rydym ni’n disgwyl y byddwch chi’n gallu llywio’r strategaeth hon a gweithio ag eraill ar draws y sefydliad i sicrhau ein bod ni’n barod i gyflawni dros y blynyddoedd sydd o’n blaenau. Mae gan eich timau gyfrifoldeb uniongyrchol dros ein cyllid DU gyfan yn ogystal â’n polisi ariannol a gweithio’n agos â phortffolios cenedlaethol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru.

## Effaith

Rydym wedi gosod uchelgeisiau cryf i gael ein llywio gan effaith yn fwy nag erioed, gan ddefnyddio amrywiaeth o fewnwleidiadau i lywio ein penderfyniadau ariannu a sut rydym ni’n dylanwadu ac yn ymgysylltu. Llynedd, gwnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad Effaith cynhwysfawr cyntaf un yn trafod yr hyn rydym wedi’i ddysgu o’r pum mlynedd diwethaf. Nawr, rydym yn dod â thri tîm cyfredol ynghyd

– gwybodaeth a dysgu, gwerthuso a mewnwleidiad cwsmer a dadansoddi gwybodaeth a data, i gyflymu ein huchelgais.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Wrth i ni edrych ymlaen at ein pen-blwydd yn 30 oed yn 2024, hoffem ddangos ein gwahaniaeth a rhannu’r stori o’r pethau anhygoel sy’n bosibl diolch i’r bobl sy’n chwarae’r Loteri Genedlaethol. Mae gan eich timau arbenigol gyfrifoldeb yn amrywio o’n cyfathrebu strategol a digidol i’n brandio, ymgyrchoedd a gwaith materion polisi cyhoeddus sy’n cynyddu ein dylanwad ac ymgysylltiad rhanddeiliaid. Yn hollbwysig, maen nhw wrth wraidd sut rydym ni’n dod â phopeth at ei gilydd ar draws y Gronfa, gan weithio â thimau lleol a chenedlaethol.

Fel arweinydd uwch, nid oes disgwyl i chi fod yn arbenigwr yn yr holl feysydd hyn. Byddwn ni’n edrych atoch chi i ddod â’r swyddogaethau hyn ynghyd, dod o hyd i gyfleoedd newydd a’u cyfieithu, a defnyddio a datblygu proffesiynoldeb eich timau i ddod â gwerth a phwrpas cyffredin ar draws Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

# Eich profiad

Fel Cyfarwyddwr, rydym ni'n chwilio am berson arbennig gyda sgiliau arwain sefydledig ac angerdd dros bobl a chymunedau. Bydd angen i chi ddangos eich profiad a chymwysterau yn y meysydd hyn:

- Profiad a dealltwriaeth o'r amgylchedd a'r parth dyfarnu grantiau polisi cymunedol y mae'r Gronfa'n gweithredu ynddynt.
- Profiad arwyddocaol ar lefel uwch mewn o leiaf un o'r meysydd hyn: strategaeth, cyfathrebu ac effaith.
- Tystiolaeth o arwain, y gallu i ddatblygu, hyfforddi a rheoli timau amlddisgyblaethol a phroffesiynol arbenigol, gan greu diwylliant tîm cadarnhaol ac ymgysylltiol.
- Profiad helaeth o weithio mewn partneriaeth, ymgysylltu allanol a rheoli rhanddeiliaid.
- dylanwadu a thrafod gwyb, datblygu a chyfoethogi perthnasoed gydag uwch rhanddeiliaid ar draws sectorau, a gweithio gyda Byrddau a Phwyllgorau anweithredol.

## Sut i ymgeisio

Dylai ymgeiswyr gyflwyno cais am y rôl hon trwy ein gwefan [tnlcommunityfund.org.uk/jobs](https://tnlcommunityfund.org.uk/jobs).

Cliciwch ar y botwm 'gweld ein swyddi presennol' ac yna ymgeisiwch ar-lein gan ddilyn y cyfarwyddiadau i gwblhau ein ffurflen gais ar-lein.

Y dyddiad cau i geisiadau yw canol nos ar **Ddydd Sul 3ydd o Orffennaf**.

Os hoffech chi siarad â ni cyn ymgeisio, cysylltwch ag Eloise Dalgliesh ar [recruitment@tnlcommunityfund.org.uk](mailto:recruitment@tnlcommunityfund.org.uk) i drefnu galwad ffôn



Footprints



Mae'r delweddau yn y llyfryn hwn yn cynnwys ein deiliaid grant ledled y DU.

Ar y clawr o'r chwith i'r dde:

1. Shantona
2. Coopers Wood



Ffoniwch ein llinell cyngor: 0345 4 10 20 30

Cyfnwid testun: 18001 plws 0345 4 10 20 30

Ewch i'n gwefan: [tnlcommunityfund.org.uk](https://tnlcommunityfund.org.uk)